Pont y Borth

(gweledigaeth / penderfyniad)

Roedd yna amser pan fyddai'r dŵr yn llifo rhwng Caernarfon a Biwmaris heb gysgod pont ar gyfyl y dyfroedd. Yr unig ffordd i groesi rhwng y tir mawr ac Ynys Môn oedd efo fferi. Byddai'r gwartheg a'r moch yn nofio dros ddyfroedd y Fenai.

Lle prysur iawn oedd Porthaethwy yn y cyfnod hwn. Hwn oedd y llecyn y byddai'r llongau hwyliau yn aros ar eu ffordd i fyny neu i lawr y Fenai. Byddai llongau tipyn mwy yn gollwng eu cargo yn y porthladd. Yna, wedyn, byddai'r nwyddau'n cael eu cludo i bob rhan o Ynys Môn. Yn wir mae cofnod bod caethweision yn cael eu gwerthu ym Mhorthaethwy i fyny hyd at y bymthegfed ganrif. Daeth Porthaethwy yn ei dro yn gyrchfan arbennig i bobl fyddai'n teithio o Lundain i Gaergybi ar eu ffordd i Iwerddon. Ond y bwgan mawr i'r teithwyr oedd croesi'r Fenai. Yn y gaeaf pan fyddai'r tywydd yn greulon neu yn ystod llanw mawr byddai'r croesi yn gallu bod yn enbydus a llawer yn colli'u bywydau.

Yn gynnar iawn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y syniad o godi pont i groesi'r afon ond bu cryn brotestio. Doedd perchnogion y fferi ddim yn hapus na'r bobl leol oedd yn dibynnu ar eu bywoliaeth ar y môr. Yn wir credai rhai o'r boneddigion y byddai pont yn hagru ac yn difetha'r olygfa. Yn ôl dau beilot lleol, John Jones a John Thomas, byddai pont yn siŵr o greu hafoc efo'r gwynt a byddai hynny'n gwneud peilota'r afon yn amhosibl.

Ond ymlaen yr aeth y gwaith. Rhoddwyd grant o £20,000 tuag at y gwaith o godi pont a phenodwyd Thomas Telford fel y prif beiriannydd.

Gŵr o'r Alban oedd Telford, yn fab i fugail. Ar ôl symud i fyw i Lundain bu'n prentisio i fod yn bensaer. Adeiladodd eglwys yn Bridgenorth, Lloegr. Ym 1795 bu llifogydd mawr ar afon Hafren a dymchwelwyd llawer o'r pontydd oedd yn croesi'r afon. Telford a gafodd y dasg o godi pontydd newydd. Felly pan gafodd y dasg o godi pont dros y Fenai roedd Telford yn ŵr profiadol iawn. Erbyn Awst 10, 1819, roedd y garreg sylfaen wedi ei gosod ac ar ôl cryn anhawster agorwyd y bont ar ddydd Llun, Ionawr 30, 1826. Cyn i'r wawr dorri roedd tyrfa fawr wedi cyrraedd yn y glaw mawr i weld yr agoriad swyddogol. Roedd y dyrfa ar ddwy ochr y bont. Erbyn amser cinio ciliodd y glaw ac am bum munud ar hugain i ddau

dyma fonllef fawr. Croesodd y Goets Frenhinol a deithiai rhwng Llundain a Chaergybi am y tro cyntaf ar ei ffordd i Gaergybi. Yn dilyn y Goets Frenhinol roedd dwy goets arall. Yn y cyntaf roedd gwŷr bonheddig oedd yn perthyn i'r Llywodraeth ac yn yr ail Thomas Telford a'i gyd-adeiladydd Syr Henry Parnell. Wrth iddyn nhw groesi roedd sŵn y gwynt yn ubain yn y colofnau haearn. Erbyn heddiw dim ond y gwaith cerrig sydd wedi gwrthsefyll y blynyddoedd. Rhwng 1938 a 1941 bu'n rhaid cael gwared â'r gwaith haearn i gyd a chodi gwaith newydd sbon i gymryd y traffig. Mae yna sôn, ar un noson stormus ym 1937, a'r gwynt yn chwythu dros 60 milltir yr awr, fod y bont wedi symud yn ôl a blaen.

Erbyn heddiw mae campwaith Telford i'w weld o hyd a bydd pobl o bedwar ban y byd yn dod i weld Pont y Borth.

Uchelgaer uwch y weilgi – gyr y byd
Ei gerbydau drosti.
Chwithau holl longau y lli
Ewch o dan ei chadwyni. *Dewi Wyn*

Adnod: "Pob un felly sy'n gwrando ar y geiriau hyn o'r eiddof ac yn eu gwneud, fe'i cyffelybir i ddyn call, a adeiladodd ei dŷ ar y graig." Mathew 7:24

Gweddi: O Dduw, diolch i ti am bobl sydd â gweledigaeth ac yn benderfynol o gael y maen i'r wal, doed a ddelo. Amen.

Trafod:

- Pam roedd y bobl leol yn gwrthwynebu codi pont dros afon Menai?
- Fyddech chi'n dweud fod adeiladwaith y dyddiau a fu yn fwy solet nag adeiladwaith heddiw?